**EITEM AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

## ADOLYGIAD O BENSIYNAU

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

## Pwrpas yr Adroddiad

**1.** Cyflwyno i Aelodau y trefniadau ariannu arfaethedig ar gyfer cynllun Pensiwn Newydd Ymladdwyr Tân fydd yn cael ei gyflwyno yn Ebrill 2007. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried effaith y cynllun pensiwn newydd ar y Ddarpariaeth Bensiynau gan yr Awdurdod.

## Cyflwyniad

**2.** Ar hyn o bryd caiff pensiynau ymladdwyr tân eu talu ar sail 'talu wrth ennill' lle dangosir taliadau a chyfraniadau gan weithwyr fel gwariant ac incwm mewn cyfrifon refeniw Awdurdodau Tân. Mae'r taliadau pensiwn yn fwy na'r cyfraniadau a dderbynnir ac mae'r balans yn rhan o ofynion cyllido net Awdurdodau Tân. Fel y gŵyr Aelodau, mae gwariant net Awdurdodau Tân yn cael ei gwrdd gan yr Awdurdodau Lleol cysylltiedig sydd yn eu tro'n cael eu hariannu gan gyfuniad o drethi lleol a chyllid canolog (Grant Cynnal Refeniw a Threthi Busnes a ail-ddosberthir).

**3.** Daeth trefniadau ariannu newydd ar gyfer cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân i rym yn Lloegr o Ebrill 2006, a bydd cynllun tebyg yn cychwyn yng Nghymru yn Ebrill 2007.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Sefydlwyd Darpariaeth Bensiwn yn 1997-98 i wneud iawn am daliadau cymudo a allai gael effaith sylweddol ar ofynion y gyllideb mewn rhai blynyddoedd yn sgil amrywiadau o ran gofynion. Y balans presennol ar y ddarpariaeth yw £1,792,366 ar ôl i £162,200 gael ei ddefnyddio i ariannu'r gyllideb ar gyfer 2006-07. Mae'r newid yn nhrefn ariannu cynllun Pensiwn newydd Ymladdwyr Tâl yn golygu na fydd angen cael darpariaeth mor fawr; ceir sylwadau pellach am hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

**Trefniadau Ariannu Newydd**

**5.** Dan y trefniadau newydd, bydd cyfraniadau gweithwyr (11% i Aelodau Presennol, 8.5% i Aelodau Newydd) a chyfraniad cyflogwr newydd (21.3% ac 11.0%) yn cael ei dalu i Gyfrif Pensiwn Lleol Ymladdwyr Tân ar wahân a gaiff ei weinyddu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Bydd pensiynau, cyfandaliadau a buddion eraill sy'n daladwy dan Gynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân yn cael eu talu o'r cyfrif hwn. Os bydd yr incwm yn llai na'r arian a delir allan o'r cyfrif pensiynau lleol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu arian atodol. I'r gwrthwyneb, bydd unrhyw arian dros ben yn y cyfrif yn cael ei adennill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**6.** Nodwedd arall o'r trefniant newydd yw bod awdurdodau lleol yn talu 'tâl i'w cyfrif pensiynau, am bob achos o ymddeol ar sail salwch. Cynigir system ag iddi ddwy haen gyda'r haen uchaf ar gyfer aelodau sy'n ymddeol ar sail salwch na fyddai'n gallu gwneud unrhyw waith, a'r haen isaf ar gyfer aelodau fyddai'n gallu gwneud gwaith arferol (ac eithrio fel ymladdwr tân). Ar gyfer pob achos o ymddeol ar sail salwch ymysg staff haen uchaf, telir tâl pensiynadwy x 4 i'r cyfrif pensiynau lleol, ac ar gyfer pob achos o ymddeol ar sail salwch ymysg staff haen is, telir tâl pensiynadwy x 2. Caiff y taliadau eu talu i'r cyfrif pensiynau lleol mewn rhandaliadau cyfartal dros gyfnod o 3 blynedd.

**Trefniadau Ariannu Newydd** *(parhad)*

**7.** Caiff taliadau am anafiadau ac am iawndal, dyfarniadau tâl presennol a rhai newydd, eu talu o gyllidebau refeniw yr awdurdod ac nid o'u Cyfrif Pensiynau.

**8.** Mae'r tabl canlynol yn dangos sut byddai'r gronfa bensiwn newydd yn gweithredu gan ddefnyddio data gwirioneddol o 2005-06.

| Cronfa Bensiwn | Incwm<br>£ | Gwariant<br>£ | Balans<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau Pensiwn Gweithwyr (11%) | -978,850 | | |
| Trosglwyddiadau i mewn | -43,291 | | |
| Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr (21.3%) | -1,912,646 | | |
| Tâl Salwch | -54,205 | | |
| Taliadau Pensiwn (ac eithrio Anafiadau) | | 3,487,257 | |
| Cyfandaliadau | | 743,875 | |
| Gwerthoedd Trosglwyddiadau Allan | | 16,471 | |
| **Grant Atodol** | | | **1,258,611** |

**9.** Bydd aelodau newydd sy'n ymuno â Chynllun Pensiwn yr Ymladdwyr Tân yn talu cyfradd is yn sgil gostyngiad o ran buddion o'i gymharu â chynllun 1992.

**Grant Cynnal Refeniw - Fformiwla**

**10.** Bydd y grant atodol gan LyC yn cael ei adennill oddi wrth yr Awdurdodau Tân drwy ostyngiad cyfatebol yn y Grant Cynnal Refeniw. Er enghraifft, pe bai'r cynllun wedi'i weithredu yn 2005-06 byddai gostyngiad o £1,258,611 wedi bod yng nghyllideb Awdurdod Tân Gogledd Cymru gan y byddai'r incwm hwnnw wedi'i dalu'n uniongyrchol i'r Awdurdod gan LyC ar ffurf grant atodol.

## **Grant Cynnal Refeniw – Fformiwla** *(parhad)*

**11.** Mewn theori bydd y Grant Cynnal Refeniw yn dal i gynnwys arian ar gyfer cyfraniadau Cyflogwr, taliadau Salwch, Dyfarniadau Tâl am Anafiadau ac achosion o Salwch staff rhan amser nad ydynt yn ymuno â'r cynllun pensiwn newydd.

## **Darpariaeth Bensiynau**

**12.** Ym marn y Llywodraeth bydd gweithredu'r cynllun pensiwn newydd yn cael gwared ar y risg sy'n wynebu'r Awdurdodau Tân o orfod cwrdd o bosibl yn flynyddol â unrhyw daliadau cymudo gormodol yn sgil amrywiadau o ran achosion ymddeol.

**13.** Er hynny, mae risg o hyd o safbwynt y tâl Salwch fydd yn daladwy i'r cyfrifon pensiynau. Gall yr Awdurdod glustnodi arian ar gyfer y taliadau Salwch yn seiliedig ar eu profiad yn y gorffennol, ond mae risg bob amser na fydd y gyllideb yn ddigon i gwrdd â thaliadau gwirioneddol yn y flwyddyn os bydd yr achosion o ymddeol ar sail Salwch yn y flwyddyn yn uwch na'r disgwyl.

**14.** Yn 2005-06 roedd 2 achos o ymddeol ar sail Salwch (haen is) a'r tâl fyddai'n daladwy i'r cyfrif pensiynau fyddai £54,205. Mae'n ddigon posibl y gallai nifer yr achosion o ymddeol ar sail Salwch fod yn uwch na hyn.  Mae angen dadansoddi data o'r gorffennol er mwyn dod i benderfyniad gwybodus ynghylch y swm i'w glustnodi ar gyfer y dyfodol.

**15.** Er mwyn lliniaru'r risg o fod â mwy o achosion o ymddeol ar sail Salwch na'r hyn a glustnodwyd mewn unrhyw flwyddyn, awgrymir cadw rhywfaint o'r Ddarpariaeth Bensiwn. Amcangyfrif o'r hyn fyddai'n swm darbodus i'w gadw ar hyn o bryd fyddai tua £200k i £400k ond mae angen dadansoddi ymhellach cyn y gellir cyflwyno ffigur mwy cywir i Aelodau.

**Argymhellion**

**16.** Bod

**16.1** Aelodau'n nodi'r trefniadau ariannu newydd ar gyfer Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân.

**16.2** Mae angen dadansoddi ymhellach achosion o ymddeol ar sail Salwch er mwyn pennu amcangyfrif ar gyfer gofynion cyllido yn y dyfodol.

**16.3** Bod Aelodau'n ystyried ad-dalu rhan o'r Ddarpariaeth Bensiynau i'r awdurdodau cysylltiedig pan fydd asesiad mwy cywir o oblygiadau'r dyfodol wedi'i gynnal.